Rhif: WG36375

Llywodraeth Cymru
# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Adnabod Ceffylau yng Nghymru.

Gweithredu rheolau Undeb Ewropeaidd diwygiedig ar adnabod ceffylau.

Gorffenaf 2018

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-78964-415-9

**Cyflwyniad:**

**Diben yr Ymgynghoriad**

Roedd yr ymgynghoriad, a gyhoeddwyd ar 7 Mawrth 2018 ac a ddaeth i ben ar 30 Mai 2018, yn ceisio safbwyntiau ar reolau diwygiedig yr Undeb Ewropeaidd ar adnabod ceffylau.

Daeth Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/262 17 Chwefror 2015 yn gosod rheolau yn unol â Chyfarwyddebau Cyngor 90/427/EEC a 2009/156/EC o ran y dulliau ar gyfer adnabod ceffylau (Rheoliad 2015/262) i rym ar 1 Ionawr 2016. Mae'n gymwys yn uniongyrchol ym mhob Aelod-wladwriaeth ac yn diddymu a disodli'r Rheoliad Comisiwn (CE) 504/2008 blaenorol. Ers 1 Ionawr 2016, y mae wedi bod yn ofyniad cyfreithiol i berchnogion adnabod eu ceffylau yn unol â Rheoliad 2015/262. Mesur iechyd pobl yw hwn yn bennaf, gyda'r nod o gryfhau'r system bresennol o 'basbortau ceffylau' a sicrhau nad yw ceffylau penodol yn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd ar gyfer pobl.

Arweiniodd refferendwm yr UE, a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2016, at bobl y Deyrnas Unedig yn pleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd (UE). Mae'r DU yn parhau i fod yn aelod llawn o'r UE tan i'r trafodaethau ymadael ddod i ben, ac mae'r holl hawliau a rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig ag aelodaeth o'r UE yn parhau mewn grym. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y DU yn parhau i weithredu a chymhwyso deddfwriaeth yr UE. Bydd canlyniad y trafodaethau yn penderfynu pa drefniadau fydd yn gymwys o ran deddfwriaeth UE pan nad yw'r DU yn rhan o'r UE mwyach.

Mae Rheoliad 2015/262 yn gymwys yn uniongyrchol ym mhob Aelod-wladwriaeth, gan gynnwys y DU, ond mae angen ei weithredu trwy ddeddfwriaeth ddomestig. Yng Nghymru, rydym yn bwriadu diddymu a disodli Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009 (Rheoliadau 2009) gydag Offeryn Statudol newydd.

Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd (y Comisiwn) gynllun gweithredu 5 pwynt yn 2013 mewn ymateb i'r datguddiadau am halogiad cig ceffyl yn y gadwyn fwyd ar gyfer pobl. Mae'r cynllun yn cynnwys camau i gryfhau'r gofynion o ran adnabod ceffylau er mwyn lleihau'r perygl y bydd ceffylau sydd wedi cael eu trin gyda chynhyrchion meddyginiaethol penodol yn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd ar gyfer pobl. Hefyd, cyflwynodd y Comisiwn ofyniad gorfodol ar bob Aelod-wladwriaeth i gofnodi pasbortau mewn cronfa ddata genedlaethol ganolog.

Mae'r prif ddarpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn Rheoliad 2015/262 yr un fath yn eu hanfod â'r rheini sydd wedi eu cynnwys yn y Rheoliad blaenorol, a weithredir trwy Reoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009. Fodd bynnag, ceir rhai gwahaniaethau allweddol:

- Gofyniad i'r holl Aelod-wladwriaethau weithredu cronfa ddata ceffylau ganolog yn cynnwys gwybodaeth benodol am geffylau yn eu tiriogaethau, gyda mwy o rannu gwybodaeth rhwng Aelod-wladwriaethau;
- Rheolaethau mwy llym o ran rhifo microsglodion gydag opsiwn i Aelod-wladwriaethau ei gwneud yn ofynnol i ficrosglodynnu ceffylau hŷn;

- Gofyniad i hysbysu Cyrff Cyhoeddi Pasbortau pan fydd ceffyl wedi cael ei allgofnodi o'r gadwyn fwyd ar ôl derbyn triniaethau meddygol penodol a chofnodi'r manylion hyn yn y gronfa ddata ceffylau ganolog;
- Safonau gofynnol newydd ar gyfer pasbortau ynghyd â phwerau cryfach i Lywodraeth Cymru atal neu dynnu cymeradwyaeth yn ôl i gyhoeddi pasbortau gan sefydliadau sy'n methu â bodloni'r safonau.

**Cyfnod Ymgynghori a Dosbarthu**

Roedd y ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ac fe'i dosbarthwyd yn uniongyrchol i randdeiliaid hefyd. Derbyniwyd cyfanswm o 21 o ymatebion yn ystod y cyfnod 12 wythnos. Ystyriwyd a dadansoddwyd yr holl ymatebion wrth lunio ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru.


**Crynodeb o'r Ymatebion**

Un Undeb ffermio
Deg unigolyn
Un Awdurdod Lleol
Pennaeth Panel Iechyd a Lles Anifeiliaid Safonau Masnach Cymru ar ran holl Awdurdodau Lleol Cymru.
Dau Gorff Cyhoeddi Pasbortau
Dwy Elusen Lles Ceffylau
Tri sefydliad â buddiant

Gofynnodd yr ymgynghoriad gyfanswm o 21 o gwestiynau. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i'r cynigion yn gadarnhaol ac yn gefnogol, er y mynegwyd nifer o bryderon gan randdeiliad, yn enwedig ynghylch y mater o orfodi. Cymerwyd y safbwyntiau hyn i ystyriaeth yn llawn wrth ddatblygu ymateb a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru ynghylch gweithredu'r Rheoliadau Adnabod Ceffylau newydd.

**Cwestiwn 1**

**A ydych chi'n cytuno y dylai ceffyl gael ei adnabod o fewn chwe mis o'i enedigaeth, neu erbyn 31 Rhagfyr yn ystod blwyddyn yr enedigaeth, pa un bynnag sydd hwyraf?**




Roedd 76% (16 o'r 21 o ymatebwyr) yn cytuno â'r cynnig, roeddent yn credu ei bod yn bwysig adnabod ceffylau o fewn chwe mis neu erbyn 31 Rhagfyr yn ystod blwyddyn yr enedigaeth. Nid oedd 14% (3 o ymatebwyr) yn cytuno ac ni atebodd 10% arall (2 o ymatebwyr) y cwestiwn.

**Cwestiwn 2**

**Rhowch resymau am eich barn, ac unrhyw dystiolaeth a lywiodd hyn. Os ydych o'r farn y dylai'r dyddiad terfyn ar gyfer adnabod fod flwyddyn ar ôl genedigaeth fan bellaf, rhowch y rhesymau am y farn hon.**

Gwnaeth cyfanswm o 18 (86%) o'r 21 o ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Mae'r mwyafrif yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gadw'r trefniadau presennol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i adnabod ceffylau o fewn 6 mis neu erbyn 31 Rhagfyr yn ystod blwyddyn yr enedigaeth, pa un bynnag yw'r dyddiad hwyraf. Roedd y rhesymau a roddwyd gan yr ymatebwyr yn cynnwys y farn y byddai cadw'r sefyllfa bresennol yn osgoi dryswch o fewn y diwydiant ceffylau. Roedd yr ymatebwyr hefyd o'r farn bod y cynnig yn caniatáu cyfnod amser rhesymol ar gyfer adnabod ebolion o'i ystyried yng nghyd-destun yr amserlen ofynnol ar gyfer cyflwyno ffurflen gais ar gyfer adnabod i'r Corff Cyhoeddi Pasbortau.

Roedd yr ymatebwyr hynny nad oeddent yn cytuno â chadw'r terfyn amser 6 mis / 31 Rhagfyr o'r farn y dylid byrhau'r cyfnod amser, ac awgrymwyd cyfnodau rhwng un mis a 6 mis. Y prif bryder y tu ôl i'r awgrym hwn oedd y gallai ebolion gael eu

gwerthu heb iddynt gael eu hadnabod yn gyntaf, os cedwir y cyfnod amser presennol. Ystyriaeth arall a gynigiwyd i gefnogi adnabod cynnar yw'r defnydd o feddyginiaethau milfeddygol, a allai o bosibl gael eu rhoi cyn i basbort gael ei gyhoeddi. Roedd un ymatebwr o'r farn mai dim ond perchnogion anghyfrifol fyddai'n cael anhawster wrth gydymffurfio â gofyniad i adnabod ceffyl o fewn cyfnod amser llai, tra bo eraill o'r farn y byddai Rheoliad 2015/262 yn helpu i reoli bridio annetholus, yn helpu i adnabod anifeiliaid sy'n cael eu colli neu eu dwyn ac yn rhoi sicrwydd ynghylch manylion adnabod y ceffyl i brynwr yn y dyfodol.

**Ymateb**

Roedd hwn yn ymateb cadarnhaol ar y cyfan, gyda dros dri chwarter y rheini a ymatebodd yn cefnogi cadw'r sefyllfa bresennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ebolion gael eu hadnabod o fewn chwe mis neu erbyn 31 Rhagfyr yn ystod y flwyddyn yr enedigaeth, pa un bynnag sydd hwyraf. Mae Llywodraeth Cymru felly yn bwriadu cadw'r cyfnod amser hwn wrth weithredu Rheoliad 2015/262. Bydd hyn yn sicrhau bod y rheoliadau domestig yng Nghymru'n adlewyrchu'r rheoliadau sy'n cael eu gweithredu yn Lloegr a'r Alban, y ddau ohonynt yn cadw'r sefyllfa bresennol. Bydd hyn yn sicrhau safoni ar draws y DU, a fydd yn lleihau unrhyw ddryswch ymhlith y cyhoedd sy'n berchen ar geffylau.

Mewn ymateb i'r rheini sy'n poeni y gallai cyfnod amser cyhyd â 6 mis / 31 Rhagfyr arwain at werthu ebolion cyn iddynt gael eu hadnabod, gall Llywodraeth Cymru gadarnhau bod Rheoliad 2015/262 dim ond yn caniatáu symud ebol gyda'r fam y mae'n dibynnu arni (h.y. heb ei ddiddyfnu). Pan fydd ebol wedi ei ddiddyfnu ac yn cael ei gynnig ar werth, mae'n ofynnol iddo gael ei adnabod yn unol â Rheoliad 2015/262 ar yr adeg y mae'n gadael y daliad lle'i ganwyd. Gan fod hwn wedi cael ei amlygu gan nifer o ymatebwyr fel mater o bryder, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio codi ymwybyddiaeth gyda'r diwydiant ceffylau ynghylch adnabod ceffylau cyn eu gwerthu.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylid cwtogi'r cyfnod amser ar gyfer adnabod ceffyl, gan y byddai'n anodd dros ben gorfodi hyn. Mae dyddiad terfyn o 31 Rhagfyr yn adeg hysbys mewn amser, mae perchnogion naill ai wedi cydymffurfio a chael gafael ar basbort erbyn y dyddiad hwn neu heb gydymffurfio ac felly nid yw'r ceffyl wedi ei adnabod. Byddai lleihau'r cyfnod amser yn ei gwneud yn llawer mwy anodd i awdurdodau gorfodi ddarganfod a nodwyd oedran ebol yn unol â'r terfyn amser ar gyfer cael gafael ar basbort. Awgrymir bod Llywodraeth Cymru, yn rhan o'r strategaeth gyfathrebu, yn ceisio codi'r mater hwn gyda rhanddeiliaid er mwyn hybu'r cam o adnabod ebolion yn wirfoddol cyn gynted â phosibl. Byddai hyn yn osgoi niferoedd mawr o gofrestriadau munud olaf ar ddiwedd y flwyddyn.

**Cwestiwn 3**

**Beth ydych chi'n ei ystyried sy'n derfyn amser rhesymol ar gyfer cyflwyno cais am ddogfen adnabod?**

Gwnaeth gyfanswm o 17 (81%) o'r 21 o ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Roedd y cwestiwn hwn yn ymwneud â'r cyfnod o amser sydd ar gael i'r Corff Cyhoeddi Pasbortau brosesu cais adnabod cyn y dyddiad terfyn. Cofnodwyd


amrywiaeth eang o gyfnodau amser, yn amrywio o dair awr i fyny. Fodd bynnag, roedd wyth o'r ymatebwyr yn cytuno â'r terfyn amser o fis a gynigiwyd.

**Ymateb**

Nid yw canlyniadau'r cwestiwn hwn yn cyd-fynd â rhai o'r ymatebion a gafwyd i gwestiwn 4, a oedd yn gofyn a oedd mis yn amser digonol ar gyfer cyflwyno cais cyn y dyddiad terfyn ar gyfer adnabod ceffyl. Mae'n ymddangos bod rhai o'r ymatebion yn dynodi bod nifer a ymatebodd yn credu bod y cwestiwn hwn yn ymwneud â phryd y mae angen i berchennog adnabod ceffyl yn hytrach na'r cyfnod amser ar gyfer gwneud cais i'r Corff Cyhoeddi Pasbortau.

**Cwestiwn 4**

**A ydych chi'n credu bod un mis calendr cyn y dyddiad terfyn ar gyfer adnabod ceffyl yn ddigonol?**




Roedd cyfanswm o 71% (15 o'r 21 o ymatebwyr) yn cytuno â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i berchnogion gyflwyno ceisiadau am basbort i'w dewis o Gorff Cyhoeddi Pasbortau o leiaf un mis cyn y terfyn amser ar gyfer adnabod y ceffyl. Nid oedd 9% (2 o ymatebwyr) yn cytuno gyda therfyn amser o fis, ac ni ymatebodd 18% (4 o ymatebwyr) i'r cwestiwn.

**Ymateb**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn fodlon i'r terfyn amser o fis gael ei orfodi i gais am basbort gael ei gyflwyno i'r Corff Cyhoeddi Pasbortau er mwyn bodloni'r terfyn amser adnabod. Mae'n ymddangos o ddadansoddi'r ymatebion bod nifer o'r rheini a ymatebodd wedi camddeall y cwestiwn gan gredu ei fod yn ymwneud â phryd y

dylai'r cam o adnabod ddigwydd yn hytrach na'r cyfnod amser a oedd yn cael ei ystyried i Gorff Cyhoeddi Pasbortau brosesu unrhyw gais.

Yng ngoleuni'r gefnogaeth gyffredinol i'r cynnig bod un mis calendr yn gyfnod amser priodol i alluogi Cyrff Cyhoeddi Pasbortau brosesu cais am ddogfen adnabod, ac i gynnal cysondeb gyda'r cyfnodau amser sy'n cael eu pennu yn Lloegr a'r Alban, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mabwysiadu'r cyfnod amser hwn o ran ceisiadau am ddogfennau adnabod ar gyfer ceffylau.

**Cwestiwn 5**

**Rhowch eich sylwadau a'ch safbwyntiau ar ei gwneud yn ofynnol i Gyrff Cyhoeddi Pasbortau ddiweddaru'r Gronfa Ddata Ceffylau Ganolog gyda gwybodaeth newydd a diwygiedig 15 diwrnod o ddyddiad cofnodi'r wybodaeth fan bellaf.**

Ymatebodd cyfanswm o 17 o'r 21 (81%) i'r cwestiwn hwn. Roedd gwahanol safbwyntiau o ran pryd y dylai hyn ddigwydd. Roedd un ymatebwr o'r farn ei bod yn bwysig i'r rheoliadau newydd nodi cyfnod amser neu fel arall mae'n cynnig cyfle ar gyfer oedi ac o ganlyniad efallai na fydd diweddaru byth yn digwydd. Bydd cyflwyno cyfnod amser pendant yn annog Cyrff Cyhoeddi Pasbortau i ddatblygu gweithdrefnau a systemau i sicrhau eu bod yn effeithlon. Roedd nifer (4) yn meddwl bod caniatáu 15 diwrnod i ddiweddaru'r Gronfa Ddata Ceffylau Ganolog yn rhy hir ac roedd yr awgrymiadau yn amrywio rhwng 24 a 72 awr, ac ystyriwyd bod 24 awr yn arfer da. Roedd dau o ymatebwyr yn bryderus y byddai'n anodd cydymffurfio â 15 diwrnod pe bai gan Gorff Cyhoeddi Pasbortau ôl-groniad, ac felly y byddai 30 diwrnod yn fwy priodol. Nododd y ddau Gorff Cyhoeddi Pasbortau a ymatebodd eu bod eisoes yn cyflawni diweddariadau dyddiol (24 awr). Cododd dau ymatebwr arall gwestiynau ynghylch sut y byddai hyn yn cael ei orfodi.

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu'r gefnogaeth eang i'r cynnig hwn a fydd yn golygu bod y Gronfa Ddata Ceffylau Ganolog yn cael ei diweddaru'n brydlon. Yng ngoleuni'r ffaith fod y ddau Gorff Cyhoeddi Pasbortau a ymatebodd i'r ymgynghoriad wedi cadarnhau eu bod yn diweddaru'r Gronfa Ddata Ceffylau Ganolog yn ddyddiol, a'r gefnogaeth eang i'r diweddariad fod mor gyflym â phosibl, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod 24 awr yn derfyn amser rhesymol ar gyfer diweddaru cofnodion. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y manteision a fyddai'n deillio o'i gwneud yn ofynnol i wybodaeth benodol gael ei chofnodi mewn amser real, sy'n cynnwys adnabod ceffylau yn gywir, er enghraifft trwy archwiliadau mewn lladd-dai i sicrhau bod unrhyw geffyl a gyflwynir i gael ei ladd yn gymwys ar gyfer y gadwyn fwyd. Mae 24 awr yn adlewyrchu'r cyfnod amser yn Lloegr, ond bydd gan Gyrff Cyhoeddi Pasbortau'r Alban hyd at 15 diwrnod i ddiweddaru cronfa ddata'r Alban. Mewn ymateb i'r sylwadau ar orfodi, bydd y Gweinyddiaethau Datganoledig yn cael eu hysbysu gan Equine Register (sy'n rhedeg y Gronfa Ddata Ceffylau Ganolog) pan fydd Cyrff Cyhoeddi Pasbortau yn mynd y tu hwnt i'r terfyn amser ar gyfer diweddaru'r gronfa ddata. Mewn achosion o'r fath, bydd y rheoliadau newydd yn nodi mai cyfrifoldeb y Gweinyddiaethau Datganoledig fydd cymryd camau o ran y Corff

Cyhoeddi Pasbortau dan sylw, a allai arwain at golli statws Corff Cyhoeddi Pasbortau os bydd diffyg cydymffurfiaeth barhaus.

### Cwestiwn 6

**Pa fanteision ydych chi'n credu y byddant yn deillio o'i gwneud yn ofynnol i Gyrff Cyhoeddi Pasbortau ddiweddaru'r Gronfa Ddata Ceffylau Ganolog yn gyflymach na'r dyddiad terfyn o 15 diwrnod? Nodwch pa feichiau ymarferol/gweinyddol y gallai hyn eu rhoi ar Gyrff Cyhoeddi Pasbortau wrth ymateb.**

Ymatebodd cyfanswm o 17 (81%) i'r cwestiwn hwn gydag ychydig dros hanner yn cynnig rhesymau pam yr oeddent yn meddwl y dylai'r terfyn amser fod yn llai na 15 diwrnod, ac roedd y rhain yn cynnwys y ddau Gorff Cyhoeddi Pasbortau sydd eisoes yn cyflawni diweddariadau dyddiol. Roedd y manteision yn cynnwys sicrhau bod y Gronfa Ddata Ceffylau Ganolog yn cynnwys data amser real a fyddai'n galluogi cyrff gorfodi, Cyrff Cyhoeddi Pasbortau a lladd-dai i feddu ar y wybodaeth ddiweddaraf a mwyaf perthnasol. Roedd un ymatebwr yn teimlo y byddai cyfnod amser llai yn galluogi delwyr i gael eu monitro ac yn atal ceffylau rhag trosglwyddo o werthiant i werthiant ac mewn achosion o werthiannau preifat bydd gan berchnogion fynediad at wybodaeth gyfredol. Hefyd, gallai diweddaru'r Gronfa Ddata Ceffylau Ganolog yn gynnar gynorthwyo'r gallu i olrhain ac atal troseddoldeb.

Tynnodd ymateb awdurdodau lleol sylw at fater yn ymwneud â cheffylau sy'n cael eu hymafael, eu gadael a'u powndio pan fo gan yr ALl gyfrifoldeb statudol i gadw ceffylau o'r fath am gyfnod o 7 diwrnod fel y gall archwiliadau gael eu cyflawni i ddod o hyd i berchnogion neu i berchnogion ddod yn eu blaenau i hawlio eu ceffylau. Mae ALlau o'r farn y dylai'r cyfnod amser ar gyfer diweddaru'r Gronfa Ddata Ceffylau Ganolog fod yn llai na'r 15 diwrnod arfaethedig gan ei bod yn bosibl y gallai oedi cyn diweddaru cofnodion olygu y bydd yn rhaid i ALlau gadw ceffylau am 15 diwrnod yn hytrach na'r 7 diwrnod statudol i sicrhau bod yr holl archwiliadau wedi eu cyflawni a bod perchnogion wedi cael pob cyfle i hawlio eu ceffylau, gan ychwanegu'n sylweddol at gostau ALlau.

O'r ymatebion eraill, ni allai nifer ohonynt weld unrhyw fanteision o leihau'r cyfnod 15 diwrnod ac roeddent o'r farn y gallai cyfnod amser llai roi beichiau afrealistig ar Gyrff Cyhoeddi Pasbortau ac arwain at faich anghymesur o ran cost i'r Cyrff hyn.

### Ymateb


Yr hyn sy'n eglur o'r ymatebion yw bod y mwyafrif o bobl o blaid terfyn amser yn cael ei nodi, ond ceir amrywiad eang o ran y cyfnod amser yr ystyrir sy'n briodol i Gyrff Cyhoeddi Pasbortau ddiweddaru'r Gronfa Ddata Ceffylau Ganolog. Er y nodir bod y ddau Gorff Cyhoeddi Pasbortau a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn diweddaru'n ddyddiol, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod efallai na fydd hyn yn wir i'r Cyrff Cyhoeddi Pasbortau eraill. Mae cyflwyno terfyn amser 24 awr yn cynnig dadl gref dros yr hyn a fydd, i bob pwrpas, yn ddiweddariadau amser real gan gynnig manteision gwirioneddol i'r rheini sy'n defnyddio'r Gronfa Ddata Ceffylau Ganolog h.y. perchnogion ceffylau, awdurdodau gorfodi, ac ati.

Mewn ymateb i'r materion a godwyd gan yr awdurdodau lleol, mae Llywodraeth Cymru yn deall bod y mathau o geffylau sy'n cael eu hymafael, eu gadael neu eu powndio yn llai tebygol o fod wedi cael eu hadnabod trwy ficrosglodyn. Yn yr achosion prin pryd y bydd sglodyn yn cael ei ddarganfod, mae'r gallu gan awdurdodau i chwilio drwy'r Gronfa Ddata Ceffylau Ganolog am fanylion perchnogaeth. Mae'n ymddangos yn annhebygol y byddai ceffyl yn cael ei adael ar yr un adeg â ffurflen gais yn cael ei chyflwyno i Gorff Cyhoeddi Pasbortau i'w adnabod. Bydd ei gwneud yn ofynnol i'r Gronfa Ddata Ceffylau Ganolog gael ei diweddaru bob 24 awr yn sicrhau y bydd gan Awdurdodau Lleol y gallu i wirio manylion unrhyw geffylau a atafaelir ac ystyrir felly na fydd yn ychwanegu at gostau awdurdodau lleol gan na fydd angen iddynt gadw ceffylau am fwy na'r 7 diwrnod statudol fel y nodir yn Neddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014.

Roedd yr ymatebion a gafwyd o ran cwestiwn 6 yn rhan o ystyriaethau Llywodraeth Cymru wrth wneud y penderfyniad a amlinellir uchod, sef ei gwneud yn ofynnol i Gyrff Cyhoeddi Pasbortau ddiweddaru'r Gronfa Ddata Ceffylau Ganolog gyda gwybodaeth newydd a diwygiedig o fewn 24 awr o'i derbyn.

**Cwestiwn 7**

**A ddylai Llywodraeth Cymru ymestyn y gofyniad microsglodynnu i bob ceffyl yng Nghymru, ni waeth beth fo'i oedran?**




Dywedodd ychydig dros hanner pawb a ymatebodd 57% (12) eu bod o blaid ymestyn y gofyniad microsglodynnu i bob ceffyl yng Nghymru. Roedd 29% (6) o'r rheini a ymatebodd yn gwrthwynebu ei gwneud yn orfodol i ficrosglodynnu ceffylau hŷn yn ôl-weithredol, ac ni atebwyd y cwestiwn gan 14% (3) o ymatebwyr.

**Cwestiwn 8**

**Rhowch eich rhesymau a darparwch unrhyw dystiolaeth pam yr ydych o blaid / nad ydych o blaid cwestiwn 7.**

Gwnaeth cyfanswm o 19 (90%) o'r 21 o ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Cyflwynodd y rheini o blaid y dadleuon a'r manteision canlynol o ran pam y dylai Llywodraeth Cymru ddechrau microsglodynnu ceffylau hŷn yng Nghymru yn ôl-weithredol.

Roedd rhai o'r farn nad yw'n bosibl gorfodi'r ddeddfwriaeth bresennol heb ei gwneud yn ofynnol i ficrosglodynnu ceffylau hŷn (cyn 2009) yn ôl-weithredol. Y ddadl a wnaed yn y cyd-destun hwn oedd nad yw dogfen adnabod (pasbort) ar ei phen ei hun yn darparu cyswllt uniongyrchol i'r ceffyl, dim ond ar ôl i geffyl gael ei ficrosglodynnu y mae cyswllt uniongyrchol yn bosibl. Roedd y rheini a oedd o blaid y cynnig hwn o'r farn y bydd microsglodynnu ôl-weithredol yn sicrhau bod gwerth gwirioneddol i'r ddeddfwriaeth yn y DU ac y bydd yr arian sy'n cael ei wario ar y Gronfa Ddata Ceffylau Ganolog yn arwain at werth da am arian i drethdalwyr [gan y byddai'n golygu y byddai'r Gronfa Ddata Ceffylau Ganolog yn cynnig cofnod cynhwysfawr o'r holl geffylau ledled Cymru].

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y byddai twyll a gwneud pasbortau ffug ar gael yn llawer mwy anodd pe bai pob ceffyl wedi ei ficrosglodynnu. Ystyrir hefyd ei fod yn hanfodol ar gyfer gorfodi deddfwriaeth arall pan fo angen cysylltu ceffyl â pherchennog atebol. Credir y bydd yn cynorthwyo'r gallu i olrhain trwy gynnig dull adnabod cadarnhaol ac o ganlyniad yn cynorthwyo diogelwch bwyd, lles anifeiliaid, achosion o glefydau egsotig, ceffylau crwydro a cheffylau'n cael eu gadael ac yn atal lladrad. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn mai dim ond perchnogion ceffylau anghyfrifol fyddai'n ei chael yn anodd cydymffurfio â gofyniad o'r fath. Cymeradwywyd y cynnig gan yr Equine Sector Council for Health and Welfare a nododd ymateb gan elusen ceffylau y byddai'n cymryd 21 mlynedd arall cyn i'r holl geffylau yng Nghymru gael eu microsglodynnu pe bai'r broses yn parhau o dan y system bresennol. Adroddodd arolwg Cymdeithas Masnach Farchogol Cymru yn 2015 mai tua £3,895 y flwyddyn oedd y gost gyfartalog o gadw ceffyl. Gallai'r gost untro o ficrosglodynnu ceffyl fod cyn lleied ag 1.3% o'r gost flynyddol gyfartalog o gadw ceffyl.

Cyfeiriodd y rheini nad oeddent o blaid y cynnig at y ffaith fod costau gweinyddol yn ormodol i'r rheini sy'n berchen ar greoedd neu sydd â sawl ceffyl. Hefyd, roedd un Corff Cyhoeddi Pasbortau o'r farn y byddai'n ychwanegu at waith a chostau Cyrff Cyhoeddi Pasbortau a chodwyd cwestiynau ganddynt hefyd ynghylch sut y byddai'n cael ei blismona yn y dyfodol. Roedd sylwadau eraill yn cynnwys pryderon am oblygiadau iechyd i geffylau hŷn a'r ffaith y gallai'r gofyniad arwain at gynnydd yn nifer y ceffylau sy'n cael eu gadael. Nododd ymatebwr arall y bydd nifer y ceffylau heb ficrosglodion yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn gan fod pob ebol newydd yn cael ei ficrosglodynnu.

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y cynnig i ficrosglodynnu yn ôl-weithredol pob ceffyl yng Nghymru nad yw wedi cael ei adnabod gyda microsglodyn eisoes yn

fater dadleuol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o’r lobïo y mae’r diwydiant wedi ymgymryd ag ef i gyflwyno dadl i bob ceffyl yn y DU gael ei ficrosglodynnu. Nodir hefyd bod dros hanner y rheini a ymatebodd i’r ymgynghoriad yn cefnogi microsglodynnu yn ôl-weithredol gan gynnig cyfiawnhad o ran y manteision o weithredu’r cynnig hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno mai microsglodynnu pob ceffyl yw’r ffordd fwyaf eglur o gysylltu ceffyl â’i basbort yn gywir ac y byddai’n cynnig manteision sylweddol o ran dibenion gorfodi yn ogystal â chynorthwyo mewn achosion o ladrad, diogelwch bwyd a lles anifeiliaid.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cael ei hysbysu am y fasnach mewn pasbortau ffug a thwyllodrus ac mae o’r farn y dylai cyflwyno microsglodynnu ôl-weithredol helpu i ddatrys problemau o’r fath gan y bydd hi gryn dipyn yn anoddach i ffugio pasbort ar gyfer ceffyl sydd â microsglodyn wedi ei fewnblannu.


Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o bryder awdurdodau lleol ynghylch ceffylau nad ydynt wedi eu microsglodynnu yn atal gorfodi. Adroddir yn aml fod ceffylau hŷn yn cael eu canfod mewn sefyllfaoedd lles neu wedi eu gadael, sy’n achosi rhwystredigaeth i sefydliadau elusennol ac awdurdodau gorfodi pan nad yw’r ceffylau hyn wedi eu microsglodynnu. Byddai cyflwyno darpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol i bob ceffyl hŷn gael ei ficrosglodynnu yn helpu i adnabod perchnogion i raddau ac o bosibl yn eu hatal rhag gadael anifeiliaid o’r fath neu eu pori’n anghyfreithlon.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pryderon y rheini nad oeddent yn ffafrio microsglodynnu ôl-weithredol oherwydd y costau ychwanegol i berchnogion, bridwyr a Chyrff Cyhoeddi Pasbortau.

Ar ôl ystyried yr ymatebion i’r ymgynghoriad, a'r dadleuon o blaid ac yn erbyn ymestyn y gofyniad microsglodynnu i bob ceffyl yng Nghymru, beth bynnag fo’u hoedran, mae Llywodraeth Cymru o blaid cyflwyno’r cynnig hwn. Yng ngoleuni’r pryderon a godwyd, yn enwedig o ran cost, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid cyflwyno’r gofyniad hwn dros gyfnod o amser, sef 2 flynedd. Dylai fod yn bosibl wedyn i ficrosglodynnu anifeiliaid hŷn ar adeg ymweliad milfeddygol arferol gan gadw’r costau galw allan am ymweliad ar wahân cyn lleied â phosibl. Cynigir y bydd y cynllun cyfathrebu yn nodi sut y gall y diwydiant mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau gorfodi roi sylw i faterion yn ymwneud â chyflwyno microsglodynnu ôl-weithredol yn brydlon. Er y nodir y bydd microsglodynnu pob ebol yn golygu y bydd nifer y ceffylau nad oes ganddynt ficrosglodion yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn, mae’r ystadegau yn dangos y byddai’n cymryd oddeutu 21 mlynedd cyn i’r gre ceffylau yn y DU gael ei microsglodynnu’n llawn.

**Cwestiwn 9**

**A ydych chi'n cytuno bod y sefydliadau hynny sydd wedi eu cynnwys ar hyn o bryd o dan y dirymiad ar gyfer merlod lled-fferal y tu allan i gwmpas y dirymiad?**




Roedd cyfanswm o 47% (10) o'r ymatebwyr o'r farn bod y dirymiad lled-fferal y tu allan i gwmpas cronicliad 32 Rheoliad 2015/262. Roedd 38% (8) yn anghytuno, gan gredu y dylai'r dirymiad barhau. Ni ymatebodd 15% (3) i'r cwestiwn hwn. Nid yw'n eglur o ddadansoddi'r sylwadau o dan gwestiwn 10 pa un a oedd y rheini a oedd yn ymateb i'r cwestiwn hwn yn deall yn llawn yr hyn a oedd yn cael ei ofyn gan ei bod yn ymddangos bod y sylwadau yn tueddu mwy tuag at y dirymiadau'n parhau a fyddai'n dynodi nad ydynt y tu allan i gwmpas.

**Cwestiwn 10**

**Rhowch eich rhesymau am eich ymateb i Gwestiwn 9. A ydych chi'n credu bod unrhyw geffylau yng Nghymru sy'n bodloni'r diffiniadau a nodir yn Rheoliad 2015/262? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich safbwynt.**

Gwnaeth cyfanswm o 18 (86%) o'r 21 o ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Roedd ymatebion yn cefnogi cadw'r dirymiad yn cynnwys safbwyntiau ar y rhan y mae merlod lled-fferal yn ei chwarae o ran cynefinoedd cadwraeth, ecoleg, diwylliant a threftadaeth yr ardaloedd y maent yn eu pori. Fe'u cydnabyddir fel nodwedd o ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol. Nodwyd hefyd ei bod yn anodd olrhain merlod sy'n byw yn y gwyllt, a bod casglu mewn rhai ardaloedd yn arbennig o anodd a chostus o ran gweithlu. Mae hefyd yn achosi straen a dioddefaint diangen i'r merlod pan fyddant yn dod i gysylltiad â phobl. Nodwyd hefyd nad yw'n ymarferol o ran costau, milfeddygol a gweinyddol, i roi pasbortau i'r merlod hyn ac os daw'n ofynnol mae'n debygol y byddai llawer o berchnogion yn eu gadael a allai arwain at ddirywiad greoedd yn y pen draw.

Mae'r bridwyr merlod lled-fferal hynny sy'n ddarostyngedig i'r dirymiad ar hyn o bryd o'r farn eu bod yn rhan o gwmpas y dirymiad ac mae ganddynt drefniadau rheoli ar waith fel bridwyr cyfrifol er mwyn bodloni'r Comisiwn. Cyflwynwyd dadleuon ganddynt o blaid parhad dirymiadau o'r fath fel ffordd sy'n cynnig dewisiadau i fridwyr cyfreithlon merlod lled-fferal ar gyfer rheoli niferoedd o fewn yr ardaloedd dirymu penodedig.

Cyflwynodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad achosion unigol dros barhau greoedd wedi'u dirymu, sef Cymdeithas Merlod y Carneddau a Chymdeithas Gwella Merlod Mynydd Cymru. Nodir y rhain isod.

- Cymdeithas Merlod y Carneddau

Mae cadw merlod y Carneddau yn fwy o draddodiad diwylliannol na busnes. Ceir tua 300 o ferlod yn y gre ac maent yn byw mewn amodau lled-wyllt ac wedi eu gwahanu o'r equidae eraill. Yn ogystal ag anawsterau logistaidd eu casglu nhw, amcangyfrifwyd y byddai'n costio £10,000 i ficrosglodynnu ac adnabod y gre gyfan a allai, ynghyd â'r straeon o drin y merlod, arwain at berchnogion yn gadael neu'n cael gwared ar greoedd cyfan. Nodir bod merlod y Carneddau yn chwarae rhan hanfodol o ran cynnal ecoleg mynyddoedd Parc Cenedlaethol Eryri ac mae eu pori yn chwarae rhan bwysig o ran cynnal llystyfiant SoDdGA / Ardal Cadwraeth Arbennig Eryri. Dadleuir hefyd bod y system bresennol pryd y bydd merlod yn cael eu microsglodynnu pan fyddant yn dod oddi ar y mynydd ac i ddefnydd domestig neu i dderbyn sylw milfeddygol yn gweithio'n dda ac y gellir ei chyfiawnhau.

- Cymdeithas Gwella Merlod Mynydd Cymru

Amcangyfrifir bod llai na 500 o ferlod mynydd lled-fferal cofrestredig ac y mae posibilrwydd mawr iawn y gallent ddiflannu'n llwyr os bydd deddfwriaeth bellach yn cael ei chyflwyno. Mae angen gwarchod merlod lled-fferal brodorol cofrestredig ac er bod niferoedd wedi gostwng mae'r dirymiad yn rhoi dewisiadau i fridwyr reoli merlod yn eu hardaloedd dynodedig. Gofynnir i'r Cymdeithasau ddarparu gwybodaeth reoli i Lywodraeth Cymru, a chefnogir hyn gan Gymdeithas y Merlod a'r Cobiau Cymreig sydd wedi cyflwyno cosbau ar ffurf tynnu sefydliadau nad ydynt yn cydymffurfio o'r Cynllun Premiwm Meirch.

Yr hyn a gydnabyddir fel problem yw'r rheini sy'n defnyddio tir comin i adael ceffylau nad ydynt eu heisiau yn ogystal â bridwyr a pherchnogion ceffylau y tu allan i Gymdeithas Gwella Merlod Mynydd Cymru sy'n defnyddio'r tiroedd comin ar gyfer eu ceffylau eu hunain ond yn methu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Prin yw'r rheolaeth sydd gan gominwyr, porwyr a sefydliadau lles dros geffylau sy'n cael eu gadael ac sy'n pori'n anghyfreithlon. Ceir problemau difrifol ar rai tiroedd comin ac mae symud anifeiliaid o'r fath yn gymhleth ac yn gostus.

Cyfeiriodd y rheini nad oeddent o blaid Llywodraeth Cymru yn cefnogi dirymiad at berchnogion tir comin sy'n cael ei bori y tu allan i'r ardaloedd dirymu statudol gan dybio'n anghywir eu bod yn destun dirymiad hefyd ac felly'n methu ag adnabod eu ceffylau. Roedd awgrym hefyd bod perchnogion yn cuddio y tu ôl i'r dirymiad pan

fo'n gyfleus iddynt ac fe'i hystyrir fel esgus i osgoi cyfrifoldeb am adnabod merlod y maent yn berchen arnynt. Ystyriwyd hefyd gan y dylai perchnogion gasglu merlod o leiaf unwaith y flwyddyn (yn yr hydref) y dylent ddilyn y rheolau fel perchnogion ceffylau eraill.

Cododd sefydliad lles bryderon ynghylch y ceffylau lled-fferal hynny sydd angen triniaeth filfeddygol ac y mae'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth iddynt gael eu hadnabod felly. Ystyriwyd y byddai'r gofyniad i adnabod y ceffyl yn darbwyllo pobl i beidio â cheisio cymorth meddygol ac felly roedd y sefydliad lles o'r farn y dylid cael gwared ar y dirymiad ac adnabod pob ceffyl er mwyn i'r temtasiwn i anwybyddu sefyllfa lles yr anifail gael ei ddileu.

Awgrymwyd y dylai unrhyw ddirymiad gael ei adolygu ar ôl 3 blynedd a rhoi cynhyrchion nad oes cyfnod diddyfnu yn gysylltiedig â nhw yn achos merlod lled-fferal sydd angen triniaeth filfeddygol.

Nodwyd hefyd bod bodolaeth cymdeithasau gwella bridiau yn awgrymu rheolaeth ddynol ar atgynhyrchiad o ran rhoi cynnig ar fridio detholus sydd felly y tu allan i gwmpas y dirymiad.

**Ymateb**

Cyflwynwyd dirymiad ar gyfer merlod lled-fferal yng Nghymru gyntaf ar ôl gweithrediad Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009 (Rheoliadau 2009) ac roedd yn cynnwys greoedd a oedd yn perthyn i aelodau Cymdeithas Merlod y Carneddau a Chymdeithas Gwella Merlod Mynydd Cymru. Fe'i cyflwynwyd yn bennaf fel mesur rheoli i alluogi aelodau i gynnal arwerthiant i gael gwared ar ebolion dros ben, ac ebolion gwryw yn bennaf. Roedd yr arwerthiant yn rhoi cyfle i brynwyr preifat brynu ebol a chael dogfen adnabod ar ei gyfer yn y man gwerthu, tra bo'r ebolion hynny nad ydynt yn dod o hyd i gartrefi preifat yn gallu symud ar sail ffurflen gais wedi ei chwblhau yn gysylltiedig â sticer crwmp yn uniongyrchol i ladd-dy. Roedd y ddau sefydliad yn cynnal arwerthiannau ar ôl cyflwyno Rheoliadau 2009 ond ni chynhaliwyd unrhyw arwerthiannau ers 2011.

Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cyfraniad amgylcheddol y mae merlod yn ei wneud i'r ardaloedd y maent yn eu pori, ceir pryder bod y dirymiad yn cael ei gamddefnyddio. Mae'r Gymdeithas Gwella Merlod Mynydd yn nodi yn ei hymateb bod tir comin yn aml yn cael ei ddefnyddio i adael ceffylau nad yw perchnogion eu heisiau. Hefyd, ceir cominwyr sydd y tu allan i gwmpas y Gymdeithas Gwella Merlod Mynydd sy'n bridio eu ceffylau eu hunain ond yn methu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Er bod y ddau sefydliad sy'n gweithredu o dan y dirymiad yn cael eu rheoleiddio'n agos ac yn fodlon i barhau i ddarparu cynlluniau rheoli i Lywodraeth Cymru, codwyd gyda Llywodraeth Cymru y ceir defnyddwyr eraill o'r tiroedd comin sy'n methu â chydymffurfio'n rheolaidd â'r broses adnabod ceffylau, ac sy'n dwyn anfri ar y broses ddirymu o ganlyniad.


Ar ôl ystyried y dadleuon o blaid ac yn erbyn parhau'r broses ddirymu, mae Llywodraeth Cymru yn gwyro at ganiatáu i'r dirymiad barhau ar gyfer Cymdeithas Merlod y Carneddau a Chymdeithas Gwella Merlod Mynydd Cymru. Gan gydnabod y problemau sy'n gysylltiedig â merlod sydd heb eu hadnabod ar dir comin, hoffai

Llywodraeth Cymru weld rhaglen addysg wedi ei thargedu at y rheini sy'n defnyddio tir cyffredin. Cynigir y dylai'r cynllun cyfathrebu sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer cyflwyno'r rheoliadau adnabod ceffylau newydd gynnwys cynigion i fynd i'r afael ag adnabod merlod ar dir comin sydd y tu allan i delerau'r dirymiad.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi ei bod yn ofynnol i'r Gymdeithas Gwella Merlod Mynydd gynnwys unrhyw stoc fridio y maent yn ei chadw yn llyfr gre Cymdeithas y Merlod a'r Cobiau Cymreig er mwyn cadw ei statws Merlod Mynydd Cymreig o Frîd. Mae'r weithred hon yn sbarduno pasbort na ellir ei ddefnyddio heb ficrosglodyn. Mae hefyd yn ofynnol i ficrosglodynnu'r ebolion hynny sy'n cael eu cadw yn rhan o'r rhaglen fridio a'u cynnig ar werth, a chyflwyno pasbort iddynt cyn iddynt adael eu hardal ddynodedig. Croesewir hyn gan Lywodraeth Cymru gan ei fod yn sicrhau y gellir adnabod yr holl ferlod lled-fferal hyn tra byddant yn crwydro'r mynyddoedd yn rhydd gan ddarparu manteision hirdymor o ran cadwraeth ac o ran cymeriad yr ardal.

**Cwestiwn 11**

**A ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru reoleiddio i'w gwneud yn ofynnol i berchnogion ail-ficrosglodynnu ceffyl pan fo'r microsglodyn wedi methu?**




Roedd cyfanswm o 76% (16) yn cytuno y dylai'r rheoliadau domestig newydd ei gwneud yn ofynnol i berchnogion ail-ficrosglodynnu ceffylau pan fo microsglodyn blaenorol wedi methu. Dim ond 5% (1) oedd yn anghytuno. Ni atebwyd y cwestiwn gan 19% (4).

**Cwestiwn 12**

**Rhowch eich rhesymau a rhowch unrhyw dystiolaeth pam yr ydych o blaid / nad ydych o blaid yr opsiwn hwn.**

Gwnaeth cyfanswm o 17 (81%) o'r 21 o ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Cyfeiriodd y rheini a ymatebodd yn gadarnhaol (76%) at synnwyr cyffredin, cau bylchau yn y rheoliadau, y gallu i olrhain, twyll, ac adnabod ceffylau yn gadarnhaol fel cyfiawnhad am fod o blaid y dewis hwn.

Dywedodd un Corff Cyhoeddi Pasbortau ei fod eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i berchnogion ail-ficrosglodynnu pan fo'r gwreiddiol wedi methu gan fod y cysylltiad rhwng y ceffyl, y microsglodyn a'r pasbort yn sail i holl egwyddor y ddeddfwriaeth ac yn galluogi i orfodi ddigwydd.


Mae'r un ymatebwr nad oedd o blaid yn gwrthwynebu microsglodynnu pob ceffyl ac yn nodi ei fod o'r farn nad oes angen microsglodynnu unrhyw anifail. Mae'n nodi mai'r proseswyr bwyd yw'r rhai y dylid eu monitro.

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod adnabod pob ceffyl yn hanfodol am resymau iechyd anifeiliaid a diogelwch bwyd ac felly'n croesawu'r ffaith fod dros dri chwarter y rheini a ymatebodd yn cefnogi ail-ficrosglodynnu ceffyl pan fo'r sglodyn blaenorol wedi methu. Cynigir felly y dylid cynnwys y gofyniad hwn yn y rheoliadau newydd.

**Cwestiwn 13**

**A ydych chi'n cytuno y dylai'r ceidwad fod yn gyfrifol yn gyfreithiol am hysbysu'r Corff Cyhoeddi Pasbortau pan fydd ceffyl wedi cael ei allgofnodi o'r gadwyn fwyd ar gyfer pobl?**



Roedd 62% (13) yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru reoleiddio i'w gwneud yn ofynnol i berchnogion hysbysu'r Corff Cyhoeddi Pasbortau pan fydd ceffyl y maent yn berchen arno yn cael ei allgofnodi o'r gadwyn fwyd. Roedd 19% (4) yn anghytuno â hyn ac ni atebwyd y cwestiwn gan 19% (4).

**Cwestiwn 14**

**Rhowch eich rhesymau a rhowch unrhyw dystiolaeth pam yr ydych o blaid / nad ydych o blaid y dewis hwn (ceidwad yn hysbysu'r Corff Cyhoeddi Pasbortau pan fydd ceffyl wedi cael ei allgofnodi o'r gadwyn fwyd ar gyfer pobl)**

Gwnaeth cyfanswm o 16 (76%) o'r 21 o ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Cynigiwyd sawl rheswm ond fe'i hystyriwyd yn bennaf fel elfen hanfodol o'r broses adnabod ac felly'r gallu i olrhain o ran diogelwch bwyd. Rhoddwyd cydymffurfiaeth ffermwyr o ran da byw fel enghraifft o sefyllfa debyg ac yn unol â hynny awgrymodd rhai ymatebion na allai fod yn anodd i berchnogion ceffylau gydymffurfio yn yr un modd. Roedd rhai o'r ymatebion o'r farn mai dim ond y rheini â rhywbeth i'w guddio fyddai ddim yn cydymffurfio.

Roedd yr ymatebion yn cynnwys y safbwynt bod cadw cofnodion yn rhan o berchnogaeth gyfrifol ac yn unol â hynny bod angen i berchnogion gadw cofnodion cywir o unrhyw feddyginiaethau milfeddygol a roddir (mae eisoes yn ofynnol i ffermwyr da byw wneud hyn) ac felly dylai perchnogion neu eu cynrychiolwyr fod yn gyfrifol am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyrff Cyhoeddi Pasbortau. Byddai neilltuo'r cyfrifoldeb i filfeddygon a phractisau milfeddygol yn rhy feichus.

Roedd un ymatebwr o'r farn y dylai perchnogion anodi'r pasbort pan fo meddyginiaethau penodol wedi eu rhoi, a gallai hyn gael ei archwilio gan yr awdurdodau wedyn.

Roedd un ymatebwr yn teimlo bod perygl amlwg i iechyd a lles ceffylau pe bai perchnogion / ceidwaid yn gyfrifol am gyfathrebu statws cadwyn fwyd y ceffyl i'r Corff Cyhoeddi Pasbortau ac y dylai gael ei wneud gan y milfeddyg sy'n trin yr anifail felly. Roedd ei bryderon wedi eu seilio ar y ffaith y byddai'r Gronfa Ddata Ceffylau Ganolog yn rhagosod i nodi bod y ceffyl yn gymwys ar gyfer y gadwyn fwyd a bod milfeddyg wedi ei gyfyngu o ran ei ddefnydd o feddyginiaethau milfeddygol pan fo ceffyl angen triniaeth filfeddygol frys ac na ellir dod o hyd i berchennog neu na chyflwynir pasbort. Aeth yr ymatebwr yn ei flaen i ddweud bod Cymdeithas Milfeddygon Ceffylau Prydain o'r farn bod yn rhaid i'r detholiad ehangach o feddyginiaethau fod ar gael i drin ceffylau. Felly milfeddygon ddylai gyfathrebu statws cadwyn fwyd y ceffyl i'r Corff Cyhoeddi Pasbortau.

Roedd un ymatebwr o'r farn na fydd perchennog, yn ymarferol, yn hysbysu'r Corff Cyhoeddi Pasbortau bod ceffyl wedi cael ei allgofnodi o'r gadwyn fwyd ar gyfer pobl. Yng ngoleuni'r safbwynt hwn, roedd yr ymatebwr o'r farn nad oedd unrhyw bwynt cyflwyno rheoliad a oedd yn sicr o fod yn aflwyddiannus ac na ellid ei blismona.

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ffaith bod mwyafrif y rheini a ymatebodd yn cytuno y dylai'r ceidwad fod yn gyfrifol am hysbysu'r Corff Cyhoeddi Pasbortau am statws cadwyn fwyd y ceffyl. Mae'r Proffesiwn Milfeddygaeth wedi nodi yn y gorffennol nad ydynt yn credu mai eu cyfrifoldeb nhw yw hyn a gallai cyflwyno rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gyflawni'r dasg hon arwain yn y pen draw at gynnydd costau milfeddygol i berchnogion, sy'n rhywbeth na fyddai'n cael ei groesawu yn gyffredinol. Er y cydnabyddir y bydd hyn yn cyflwyno ymrwymiad newydd ar geidwaid, gobeithir y bydd y gofyniad newydd hwn yn cael sylw drwy'r cynllun cyfathrebu a fydd yn helpu'r diwydiant ceffylau i ddosbarthu negeseuon allweddol i berchnogion ceffylau. Mewn achos lle mae ceffyl yn cael ei drin gyda meddyginiaethau penodol, byddwn yn ceisio cymorth gan filfeddygon, gan ofyn iddynt dynnu sylw perchnogion at y gofynion newydd ac yn gofyn i berchnogion o'r fath roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Corff Cyhoeddi Pasbortau perthnasol yn unol â hynny. Yng ngoleuni'r ymatebion a dderbyniwyd, ac o gofio barn Llywodraeth Cymru fod cadw cofnodion yn rhan o berchnogaeth anifeiliaid cyfrifol, y bwriad yw cynnwys gofyniad yn y rheoliadau domestig newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i geidwad ceffyl hysbysu'r Corff Cyhoeddi Pasbortau neu'r gronfa ddata am statws cadwyn fwyd ceffyl.

**Cwestiwn 15**

**A oes unrhyw faterion eraill y mae angen i Lywodraeth Cymru roi sylw iddynt er mwyn gwella cydymffurfiaeth? Rhowch cymaint o fanylion â phosibl.**

Gwnaeth cyfanswm o 14 (67%) o'r 21 o ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Roedd awgrymiadau am y rhesymau pam mae lefel isel o gydymffurfiaeth a sut y dylid rhoi sylw i'r mater, yn cynnwys:

- Perchnogion ddim yn deall eu cyfrifoldebau yn llawn;
- Perchnogion yn ei chael yn rhy anodd cydymffurfio neu wedi dewis peidio gan eu bod yn credu nad yw'r broses orfodi yn gadarn ac felly y gallant wneud hynny heb gael eu cosbi;
- Nid yw perchnogion wedi eu hargyhoeddi o bwysigrwydd Rheoliadau 2009;
- Nid yw pasbortau yn cael eu hildio i Gyrff Cyhoeddi Pasbortau i'w annilysu yn dilyn marwolaeth y ceffyl felly maent yn parhau i fod yn fyw yn y system;
- Mae'r gost o adnabod ceffyl mewn rhai achosion yn fwy na gwerth yr anifail ac mae rhai bridwyr yn amharod i adnabod ceffyl tan y byddant o'r farn bod ganddo ddyfodol dichonol.

Roedd awgrymiadau o ran y camau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd yn cynnwys cyflwyno rheoliadau llymach er mwyn cau bylchau yn y rheoliadau, datrys yr hyn a dybir sy'n broblem les enfawr a mynd i'r afael â'r mater o orfridio. Roedd sawl ymateb yn canolbwyntio ar gynnal mwy o archwiliadau o basbortau ceffylau ac, yn benodol, gwneud marchnadoedd yn fwy atebol trwy, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr sganio a gwirio manylion ar y pasbort ar adeg mynediad [i'r farchnad], gwirio fod manylion y gwerthwr yn cyfateb i'r manylion ar y pasbort a chofnodi holl fanylion y trafodiad.

Awgrymwyd hefyd y dylid dosbarthu ceffylau fel da byw ac felly eu gwneud yn destun i archwiliad i nodi lle maent yn cael eu cadw.

Cydnabuwyd bod y drefn yn ddrud i'r heddlu a bod angen i fwy o gyllid fod ar gael er mwyn gallu gwneud hyn. Roedd cefnogaeth i gyflwyno sancsiynau sifil i alluogi gorfodi heb orfod dwyn achos llys heblaw mewn amgylchiadau eithriadol. Roedd un ymatebwr o'r farn bod angen i berchnogion ceffylau fod yn atebol ac os na fyddant yn cydymffurfio yna y dylid rhoi dirwyon a dedfrydau o garchar i'r rheini sy'n torri'r gyfraith.

Gofynnodd un Corff Cyhoeddi Pasbortau am hysbysiad cynnar am unrhyw newidiadau deddfwriaethol er mwyn iddo gael amser digonol i weithredu a hysbysebu'r newidiadau ymhlith ei berchnogion / aelodau.

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adborth cadarnhaol a'r gefnogaeth i fwy o gydymffurfiaeth yn y maes hwn, a'r sylwadau a wnaed yng nghyswllt hyn. Mae cwmpas yr ymgynghoriad yn ymwneud â gweithrediad rheolau UE diwygiedig ar adnabod ceffylau yng Nghymru. I'r graddau y mae'r ymatebion yn gysylltiedig â'r mater hwn, bydd LIC yn ceisio rhoi sylw i'r rhain drwy'r cynllun cyfathrebu.

**Cwestiwn 16**

**A ydych chi'n credu y gellid cymryd camau i wella cydymffurfiaeth â'r drefn adnabod ceffylau? Os felly, nodwch yr hyn yr ydych chi'n ei gredu y gellid ei wneud.**

Gwnaeth cyfanswm o 15 (71%) o'r 21 o ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Ystyriwyd y byddai monitro gwell a gofyniad gorfodol i sganio ceffylau pan fyddant yn dod i gysylltiad ag asiantaethau swyddogol yn helpu, gan gynnwys cynnal archwiliadau mewn sioeau ac arwerthiannau.

Roedd un ymatebwr o'r farn bod llawer yn credu bod y drefn yn gynllun gwirfoddol a dim ond y rheini sy'n bridio stoc pedigri oedd yn ei hystyried yn bwysig gan eu bod o'r farn ei fod o fudd iddynt sicrhau'r pasbort cywir i'w ceffylau. Amlygodd ymateb arall fylchau yn y rheoliadau a'r angen i'w llenwi a pheidio â chaniatáu unrhyw eithriadau i'r cynllun. Awgrymodd un sefydliad y dylid cynnig microsglodynnu am ddim am gyfnod cyfyngedig ar gyfer ceffylau a anwyd cyn 1 Gorffennaf 2009 er mwyn cynyddu cydymffurfiaeth, ac awgrymodd un arall y dylid ystyried nad oes gan unrhyw geffylau a ganfyddir heb ficrosglodyn berchennog ac felly y dylent gael eu hail-gartrefu gan elusennau lles ceffylau.

Awgrymwyd y gellid gwella cydymffurfiaeth pe bai'r gwerthwr yn darparu gwybodaeth i'r Corff Cyhoeddi Pasbortau wrth werthu'r ceffyl o fewn 30 diwrnod i'r gwerthiant a chynghori'r perchennog newydd i wneud yr un peth.

Fel y nodwyd eisoes yn yr ymgynghoriad, mae'r drefn adnabod ceffylau yn ddrud i'w phlismona ac mae nifer o ymatebwyr yn cydnabod bod angen i fwy o gyllid fod ar

gael. Roedd ymatebion eraill yn cynnwys cyfeirio adnoddau at gyfathrebu a thargedu'r unigolion a'r cymunedau hynny sydd mewn mwy o berygl o fethu â chydymffurfio. Dylid rhannu arfer da gydag unigolion a chymunedau a dylai Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth â'r sector ceffylau, Cyrff Cyhoeddi Pasbortau, ALlau i ddangos arweinyddiaeth o ran addysgu perchnogion, ceidwaid a milfeddygon ynghylch yr hyn y dylent ei wneud a goblygiadau peidio â'i wneud.

Er mwyn gwella cydymffurfiaeth, nododd un ymatebwr yr angen i newid ymddygiad perchnogion a chynigiodd y pedair ffrwd ganlynol fel y pwysicaf:

- Addysg trwy strategaeth gyfathrebu fanwl yn nodi pwysigrwydd y drefn adnabod ceffylau, y strategaeth hon i gael ei chytuno gyda'r diwydiant ceffylau ac wedi ei darparu'n rhannol ganddo;
- Symleiddio'r rheoliadau fel bod y gofynion yn hawdd eu deall;
- Ystyried yr agweddau ymarferol ar gydymffurfio a chyflwyno mesurau yn ei gwneud yn haws i berchnogion ddiweddaru gwybodaeth h.y. newid statws Cadwyn Fwyd/perchnogaeth a Marwolaeth.
- Ei gwneud yn symlach ac yn fwy cost-effeithiol i awdurdodau lleol orfodi'r Rheoliadau Adnabod trwy ddefnyddio hysbysiadau cydymffurfio neu orfodi.

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r sylwadau a wnaed ar sut y mae'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn ystyried y dylai cydymffurfiaeth gael ei dynhau. Cydnabyddir bod addysg yn elfen allweddol a bydd y cynllun cyfathrebu yn ceisio datblygu hyn mewn partneriaeth â'r diwydiant ceffylau, awdurdodau lleol a Chyrff Cyhoeddi Pasbortau. Ceir rhinwedd i'r awgrym y dylai'r gwerthwr a'r prynwr hysbysu'r Corff Cyhoeddi Pasbortau pan fydd ceffyl yn newid dwylo a deallir bod un Corff Cyhoeddi Pasbortau yng Nghymru yn gweithredu'r system hon yn effeithiol eisoes. Yn rhan o'r cynllun cyfathrebu, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu annog Cyrff Cyhoeddi Pasbortau i gynnal treial gwirfoddol o'r system hon i weld a yw cyflwyno proses o'r fath yn cynyddu cydymffurfiaeth o ran manylion newid perchnogaeth. Os bydd penderfyniad yn cael ei wneud i ficrosglodynnu yn ôl-weithredol (h.y. ar gyfer yr holl geffylau a anwyd cyn 2009 nad ydynt wedi eu microsglodynnu ar hyn o bryd) bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio gweithredu hwn dros gyfnod o ddwy flynedd a chredir y bydd perchnogion yn gallu gwneud trefniadau i ficrosglodynnu ceffylau nad ydynt wedi eu microsglodynnu yn ystod y cyfnod hwn yn rhan o ymweliad arferol gan leihau costau galw allan i berchnogion.

**Cwestiwn 17**

**Rhannwch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych, yn enwedig o ran sut y gellid cyfathrebu gofynion y rheoliadau i sicrhau lefel gref o gydymffurfiaeth.**

Gwnaeth cyfanswm o 14 (67%) o'r 21 o ymatebwyr awgrymiadau neu sylwadau ar y cwestiwn hwn.

Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys cynnig cyngor trwy weithdai a stondinau arddangos mewn sioeau ynghyd â chynnal archwiliadau corfforol mewn arwerthiannau a sioeau i gynyddu ymwybyddiaeth. Nododd un ymatebwr na ellid

symud gwartheg heb hysbysu cronfa ddata genedlaethol felly ni allai weld pam na ddylai rheolau tebyg fod yn gymwys i geffylau.

Gwnaed nifer o awgrymiadau o ran sut y gallai perchnogion ceffylau gael eu targedu ac roedd hyn yn cynnwys cyfathrebu trwy gymdeithasau ceffylau, greoedd, taflenni gan Gyrff Cyhoeddi Pasbortau yn rhan o restr bostio gyffredinol, gweithdai, stondinau arddangos mewn sioeau lleol, undebau ffermio, y wasg leol, milfeddygon, ffermwyr, cymdeithasau cominwyr, awdurdodau lleol a sefydliadau ceffylau eraill. Roedd un ymatebwr o'r farn bod ymgysylltiad a chyfranogiad milfeddygon preifat mewn addysgu a chynghori perchnogion yn allweddol gan mai nhw yw'r pwynt cyswllt cyntaf yn aml pan ofynnir iddynt adnabod y ceffyl yn wreiddiol.

Roedd ymateb arall yn credu y dylid targedu'r wasg yn ei chyfanrwydd, yn hytrach na chyfyngu cyfathrebu i gyhoeddiadau yn ymwneud â cheffylau yn benodol. Ystyriwyd y gallai cyfryngau cymdeithasol chwarae rhan ddefnyddiol hefyd o ran cyfathrebu newidiadau i drefn.

Codwyd yr awgrym y dylai'r prynwr a'r gwerthwr hysbysu'r Corff Cyhoeddi Pasbortau am newid perchnogaeth y ceffyl eto hefyd.


Awgrymodd farn arall fod diffyg cydymffurfiaeth yn aml yn gysylltiedig â cheffylau gwerth economaidd isel, a dylai targedu adnoddau at berchnogion y ceffylau hyn wella cydymffurfiaeth â'r rheoliadau yn ogystal â helpu i wella lles y ceffylau dan sylw o bosibl.

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adborth a bydd yn ceisio cynnwys llawer o'r awgrymiadau a wnaed yn y cynllun cyfathrebu.

**Cwestiwn 18**

**A ydych chi'n credu y gellid gwella cydymffurfiaeth â'r drefn adnabod ceffylau trwy ddefnyddio sancsiynau sifil a/neu sancsiynau gweinyddol? Rhowch resymau am eich ateb**




Roedd cyfanswm o 15 (71%) o'r 21 o ymatebwyr yn cytuno y byddai cydymffurfiaeth yn cael ei wella trwy ddefnyddio sancsiynau sifil neu weinyddol, nid oedd 3 (14%) yn cytuno ac ni atebwyd y cwestiwn gan 3 (14%).


O'r 15 a ymatebodd yn gadarnhaol, dim ond 2 wnaeth gynnig sylwadau pellach. Nodwyd bod erlyniadau yn cymryd amser ac yn ddrud ac nad yw troseddau sy'n gysylltiedig â phasbortau ceffylau yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth mewn cyfnod o adnoddau cynyddol brin. Nododd yr ymatebion bod sancsiynau sifil eisoes yn cael eu defnyddio mewn meysydd Safonau Masnach eraill ac y gellir eu gweinyddu yn fwy prydlon ac, os cânt eu defnyddio yn briodol, gallant anfon neges o orfodi cadarn a all arwain at lefelau cydymffurfio gwell. Roedd yr ymatebwyr a wnaeth sylwadau o'r farn y byddai sancsiynau sifil yn cynnig mwy o hyblygrwydd o ran gorfodi'r drefn ac annog lefel uwch o orfodi mwy effeithiol.

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ffaith bod bron i dri chwarter o'r rheini a ymatebodd yn cefnogi cyflwyno a defnyddio sancsiynau sifil / gweinyddol ac yn cytuno gyda'r safbwynt y bydd yn cynnig mwy o hyblygrwydd i awdurdodau gorfodi ac, os cânt eu defnyddio yn briodol, y byddant yn anfon neges gadarn i berchnogion ceffylau bod cydymffurfiaeth yn cael ei gymryd o ddifrif. Felly mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno sancsiynau sifil i'r rheoliadau domestig newydd.

**Cwestiwn 19**

**A ydych chi'n cytuno y dylai unrhyw drefn o sancsiynau sifil, pe bai'n cael ei chyflwyno, barhau i gael ei seilio ar sancsiynau troseddol a / neu'r system llysoedd sifil ar gyfer troseddau mwy difrifol? Rhowch resymau am eich ateb.**




Roedd cyfanswm o 17 (81%) o'r 21 o ymatebwyr yn cytuno y dylid seilio sancsiynau sifil ar sancsiynau troseddol pan fo'n briodol. Nid oedd un (5%) ymatebwr yn rhannu'r safbwynt hwn ac ni ymatebodd 4 (14%) i'r cwestiwn o gwbl.

O'r 17 a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, dim ond 3 a gynigodd sylwadau pellach. Roedd pob un o'r farn bod sancsiynau sifil yn ddull gorfodi pwysig pan nad yw cydymffurfiaeth wedi cael ei sicrhau trwy gyngor a sancsiynau sifil. Mae'r bygythiad o erlyniad troseddol yn anfon neges gref a chadarn bod Llywodraeth Cymru o'r fan bod diffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau yn fater difrifol.

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn falch o weld ychydig dros 80% o ymatebwyr yn cytuno'n arbennig â'r angen i seilio unrhyw sancsiynau sifil neu weinyddol ar sancsiynau troseddol. Cytunir na ystyrir y bydd canlyniadau am ddiffyg cydymffurfiaeth â sancsiwn sifil heb sancsiynau troseddol. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai'r drefn fod yn seiliedig ar sancsiynau troseddol.

Mae Swyddogion Llywodraeth Cymru wrthi'n cwmpasu'r gofynion fel y gall cynllun o gosbau sifil gael eu cyflwyno ledled Cymru.

**Cwestiwn 20**

**Rhowch amcangyfrif o'r costau presennol a wynebwch wrth gydymffurfio â'r gofynion adnabod (Dylech gynnwys manylion cryno a dadansoddiad o gostau).**

Gwnaeth cyfanswm o 11 (52%) o'r 21 o ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Roedd costau yn amrywio o £50 lle caniateir i berchnogion gwblhau'r marciau ar yr amlinelliad eu hunain (microsglodynnu £15, cofrestru £35 yr ebol) hyd at £200 ar gyfer ceffylau pedigri a cheffylau chwaraeon, ac yn ogystal â'r ffi gofrestru ceir costau milfeddygon am gwblhau'r amlinelliad, cymryd blew / gwaed ar gyfer DNA a microsglodynnu. Nodwyd hefyd bod costau newid perchnogaeth yn amrywio o ddim i £50 yn dibynnu ar y Corff Cyhoeddi Pasbortau dan sylw.

Tynnodd y rheini a oedd yn ymateb ar ran Cyrff Cyhoeddi Pasbortau sylw at gostau o tua £500 y flwyddyn am newidiadau meddalwedd i tua £6,000 am newidiadau i arddulliau a chynlluniau pasbortau ynghyd â £17,500 arall ar gyfer rhybedwr offer, rhybedion, gorchuddion a lamineiddiwr pasbort ac ati.

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gwahaniaeth eang o ran costau. Mae'r Cyrff Cyhoeddi Pasbortau sy'n codi ffioedd uwch yn dueddol o fod yn gymdeithasau brîd sy'n aml yn cynnig mwy na chofrestriad syml yn unig yn rhan o'r broses adnabod. Mae gwasanaethau fel profion DNA yn ychwanegu at werth yr anifail at ddibenion bridio. Mae angen i unigolion sy'n bridio ystyried y gost o adnabod a chofrestru cyn ymgymryd â rhaglen fridio. Nodir yn achos adnabod anifeiliaid lluosog bod llawer o bractisau milfeddygol yn cynnig gostyngiadau ar gyfer ebolion lluosog.

**Cwestiwn 21**

**Rhowch unrhyw safbwyntiau neu sylwadau ychwanegol sydd gennych ar y drefn adnabod ceffylau nad ydych wedi eu rhoi ar ffurf ymateb i gwestiynau cynharach yn yr ymgynghoriad hwn.**

Gwnaeth cyfanswm o 8 (38%) o'r 21 o ymatebwyr sylwadau.

Manteisiodd sawl ymatebwr ar y cyfle i ailadrodd safbwyntiau blaenorol ac nid yw'r rhain wedi eu cynnwys gan eu bod yn cael eu trafod yn gynharach.

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys angen i'r gweinyddiaethau datganoledig gymryd camau i sicrhau bod y rheoliadau yn yr holl weinyddiaethau mor debyg â phosibl fel bod perchnogion ceffylau yn sicr o'u rhwymedigaethau.

O ran y broses ymgeisio, roedd safbwynt na ddylai fod yn angenrheidiol i filfeddygon dynnu amlinelliadau ar ffurflenni cais a bod angen mwy o gyfathrebu ynghylch y broses ymgeisio gan fod dryswch tybiedig ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ddychwelyd dogfen adnabod wedi ei chwblhau i'r Corff Cyhoeddi Pasbortau ar ôl i ficrosglodyn gael ei fewnblannu. Tynnodd pwynt arall sylw at bryderon ynghylch y weithdrefn

‘allgofnodi’ mewn achosion lle cyflwynir pasbort newydd ar gyfer anifail â manylion adnabod hysbys.

Arweiniodd y dirymiad lled-fferal at sylwadau ychwanegol – sef cais i ymestyn y dirymiad i ardaloedd penodol eraill lle ceir merlod gwyllt nad ydynt wedi eu hadnabod ar hyn o bryd a byddai’r defnydd o bwerau o dan 17(4) o Reoliad 2015/262 yn caniatáu i ferlod lled-fferal gael eu microsglodynnu gan filfeddyg heb gyflwyno pasbort ar yr amod bod y microsglodyn yn cael ei storio yng nghronfa ddata’r Corff Cyhoeddi Pasbortau. Wedyn byddai’r Corff Cyhoeddi Pasbortau yn gallu cyhoeddi pasbort ar ddyddiad diweddarach, er enghraifft pan fydd merlyn lled-fferal yn gadael yr ardal ddynodedig.

Awgrymwyd y dylai fod yn ofynnol i Gyrff Cyhoeddi Pasbortau gadw eu ffioedd mor isel a chystadleuol â phosibl a chynnig cyfnod cyflawni cyflym. Mewn ymateb i ficrosglodynnu, ystyriwyd y gellid rhoi anogaeth i grwpiau o berchnogion (gan gynnwys y rheini sy’n berchen ar ferlod lled-fferal) ddod at ei gilydd a threfnu diwrnodau microsglodynnu er mwyn rhannu’r gost filfeddygol.

Roedd un ymatebwr o’r farn ei bod yn amhosibl cydymffurfio â deddfwriaeth bresennol yr UE wrth ddarparu gofal milfeddygol brys i unrhyw geffyl nad oes ganddo ddogfen adnabod ac yn unol â hynny gofynnodd i Lywodraeth Cymru roi sylw i’r mater lles anifeiliaid hwn gyda’r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol fel y gellir dod o hyd i ateb o fewn y ddeddfwriaeth bresennol.

Awgrymwyd hefyd bod angen cyflwyno un Corff Cyhoeddi Pasbortau yn yr hirdymor, yn debyg i Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain. Ystyriwyd y gallai asiantaeth o’r fath gynnig un pwynt cyswllt i’r holl berchnogion ceffylau gan gael gwared ar broblemau i awdurdodau gorfodi ar yr un pryd gan na fyddai angen iddynt gysylltu â sawl sefydliad. Gellid safoni pasbortau hefyd.

Roedd ymateb yr awdurdod lleol yn cynnwys gofyniad i Gyrff Cyhoeddi Pasbortau ddeall eu cyfrifoldebau wrth ymdrin â cheisiadau gan awdurdodau gorfodi am wybodaeth.

**Ymateb**

Nod Llywodraeth Cymru fydd adolygu’r Safonau Gweithredu Gofynnol ar gyfer Cyrff Cyhoeddi Pasbortau a chanllawiau sy’n ategu’r rheoliadau domestig yng ngoleuni’r sylwadau a dderbyniwyd. Bydd canllawiau o’r fath yn cynnwys meysydd lle mae’n ymddangos y byddai eglurhad pellach o fudd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pwysigrwydd o weithio mewn partneriaeth â’r diwydiant ac awdurdodau gorfodi i helpu perchnogion ceffylau i ddeall eu rhwymedigaethau a chyda’r nod o gynyddu cydymffurfiaeth â’r ddeddfwriaeth. Mae’r mater penodol o’r amlinelliad wedi ei dynnu yn un i’r Cyrff Cyhoeddi Pasbortau unigol. Os bydd Corff Cyhoeddi Pasbortau yn caniatáu i unigolion ac nid milfeddygon gwblhau’r amlinelliad, cyfrifoldeb y sefydliad dan sylw fyddai bod yn sicr ynghylch cymhwysedd y rheini sy’n cynhyrchu’r amlinelliadau, a sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y ddeddfwriaeth.

O’r wybodaeth a ddarparwyd, nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â’r awgrym y dylai’r dirymiad lled-fferal gael ei ymestyn; ni chafwyd unrhyw geisiadau gan

berchnogion merlod lled-fferal sy’n pori ar dir comin / mynydd y tu allan i ardaloedd y Carneddau a’r Gymdeithas Gwella Merlod Mynydd ar gyfer estyniad o’r fath.

Ystyrir bod y mater o ffioedd yn fater i bob Corff Cyhoeddi Pasbortau unigol, ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod Cyrff Cyhoeddi Pasbortau yn fusnesau annibynnol ac mae angen iddynt gymryd eu ffioedd i ystyriaeth yn eu modelau busnes. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â pherchnogion y byddai dod at ei gilydd ar gyfer diwrnodau adnabod grŵp er mwyn lleihau costau milfeddygol yn ffordd gadarnhaol o fynd i’r afael â rheoliadau, ond mater i unigolion yw hwn ac nid yw’n rhywbeth y mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn rhan ohono.

Ni fwriadwyd erioed y byddai’r ddeddfwriaeth yn atal milfeddyg rhag trin ceffyl. Os bydd y milfeddyg yn ansicr ynghylch statws cynhyrchu bwyd y ceffyl, yna dylai drin y ceffyl gyda chyffuriau sy’n addas ar gyfer mynd i’r gadwyn fwyd neu ofyn i’r perchennog ddarparu’r pasbort ar ôl y digwyddiad fel y gall y milfeddyg gofnodi’r meddyginiaethau priodol wedyn. Os nad oes gan geffyl basbort, nid yw’n atal milfeddyg rhag ei drin. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a ddylid rhoi sylw i’r mater hwn yn y canllawiau.

Trafodwyd y mater o symud i un Corff Cyhoeddi Pasbortau canolog eisoes. Mae cyflwyno’r Gronfa Ddata Ceffylau Ganolog ym mis Mawrth eleni yn cynnig cyfleuster chwilio canolog i awdurdodau lleol sydd â’r gallu i gyfeirio’r awdurdod lleol at y Corff Cyhoeddi Pasbortau priodol.

O ran gorfodi, byddai hwn yn fater i awdurdodau lleol unigol sy’n cymryd camau gorfodi ei drafod gyda’r Corff Cyhoeddi Pasbortau perthnasol: mae’n ymddangos o’r adborth a dderbyniwyd bod Cyrff Cyhoeddi Pasbortau yn awyddus bod y rheoliadau yn cael eu gorfodi ac felly y mae o fudd iddynt gynorthwyo gydag achosion gorfodi.